

Cofnodion Drafft

COFNODION O GYFARFOD IS BWYLLGOR CYLLID CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 10.00 O'R GLOCH Y BORE 22.9.26

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Giles Bentham

PRESENNOL

Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Reg Chapman, Martin Hughes (dros zoom) a'r Clerc

'Roedd y Cyng. Martin Hughes ddim ond yn bresennol am ychydig amser oherwydd probelamu gyda'r cysylltiad

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Medi 3ydd 2026 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

MATERION YN CODI

Cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2026/27

Cafwyd wybod bod y Cyng. Martin Hughes wedi anfon copi o'r cyfrifon rheolaeth i'r Aelodau a chafwyd wybod bod y ffigyrau hyn yn wahanol i ffigyrau y Trysorydd oherwydd nid oedd yn cynnwys TAW fel incwm. Datganodd y Trysorydd bod y ffigyrau mae hi yn gyflwyno yn cyd fynd ar cysoni banc ar ddiwedd bob mis.

Diweddariad Ariannol

Cytunwyd bod angen cyllideb i'r projectau sydd yn dod o dan yr is-bwyllgor ardaloedd gwyrdd fod arwahan ag hefyd bod cael prisiau am waith sydd angen ei gario allan yn cae chwarae Llyn y Felin mewn llaw.

Adroddodd y Trysorydd bod anfoneb am £21,060.00 wedi ei dderbyn gan gwmni G. L. Jones am y gwaith a gafodd ei wneud yn cae chwarae Brenin Sior a cytunwyd i dalu yr anfoneb hon yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cynnwys y saesneg ar y ffurflen cais i ofyn am gymorth ariannol a cytunwyd bod hon yn iawn ond bod angen newid y dyddiad i'r 31ain o Hydref.

Cyfraniad gan Gynghorwyr

Nid oedd dim cyfraniad gan unrhyw Gynghorydd.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd DYDDIAD.....